
WELSH INSTITUTE FOR HEALTH AND SOCIAL CARE

SEFYDLIAD IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU

University of South Wales · Prifysgol De Cymru

<https://wihsc.southwales.ac.uk> · <https://wihsc.southwales.ac.uk/cymraeg> · wihsc2@southwales.ac.uk

Gyda Gweledigaeth 2020: gwersi iechyd, gofal a llesiant – gofal cymdeithasol

Tony Garthwaite

CYFLWYNIAD

Mae effaith Covid 19 ar ofal cymdeithasol yn haeddu cryn graffu yn y dadansoddiad ddaw yn y dyfodol o ba mor dda y mae'r DU wedi ymateb i'r pandemig. Mae'n anochel y bydd y dadansoddiad hwnnw'n ymdrin â chyfraniad amhrisiadwy gofal cymdeithasol i'r ymdrech genedlaethol a'r effaith y mae'r firws wedi'i chael ar dderbynwyr, comisiynwyr a darparwyr gofal a chymorth, ac yn wir ar y rhai mewn angen sydd heb wasanaeth ar hyn o bryd. Pwysleisiodd papur rhagarwei niol WIHSC ar Covid¹ bwysigrwydd dechrau dysgu gwersi nawr, yn anad dim fel nad yw ein teimladau yn ogystal â ffeithiau am y profiadau digynsail hyn yn cael eu colli gydag amser.

Yn y papur hwn rydyn ni'n dechrau nodi sut yr effeithiwyd ar ofal cymdeithasol yn weithredol, i ba raddau y mae wedi cael ei ystyried a'i gyflwyno fel gwasanaeth allweddol, a goblygiadau Covid ar gyfer trefnu a darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Rydym yn llwyr gydnabod ac yn sylweddoli maint yr her unigryw sy'n wynebu'r rhai sy'n cymryd rhan ar bob lefel a'r ymdrechion Hercwleidd maen nhw wedi'u gwneud i'w chyflawni. Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod maint a chymhlethdod y system iechyd a gofal cymdeithasol yn golygu bod rhai camgymeriadau yn anochel a bod angen eu gwrthbwysio gan y llwyddiannau a gyflawnwyd mewn cymaint o achosion. Dylid darllen y papur hwn yn y cyd-destun hwnnw.

Y BERTHYNAS RHWNG COVID A GOFAL CYMDEITHASOL

Cawsom ein hatgoffa'n amlwg o'r hyn ydy gofal cymdeithasol drwy gip uniongyrchol ar sut y byddai pandemig yn effeithio ar wasanaethau. Yn ogystal â gwneud cyfraniad mawr at atal angen, mae gofal cymdeithasol yn ymwneud â darparu'r gofal a'r gefnogaeth fwyaf personol, corfforol ac emosiynol, mewn amrywiaeth o wahanol leoliadau a chyd-destunau, i rai o bobl fwyaf bregus cymdeithasol ar draws pob oedran. Rydym bellach yn gwybod mai'r bobl sy'n aml yn cael eu cefnogi fwyaf gan ofal cymdeithasol - pobl hŷn, y rhai â chyflyrau meddygol tymor hir a phobl o gefndiroedd tlotach - hefyd yw'r rhai yr effeithiwyd arnyn nhw fwyaf gan Covid². Mae'r profiad o ynysu a'r rheolau sy'n gysylltiedig â phellter cymdeithasol yn cyferbynnu'n uniongyrchol â hanfod gofal cymdeithasol da. Mae cadw pellter cymdeithasol a ffurfiau cyswllt o hirbell yn ddiarth i weithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol; mae rheoli bywydau'r rhai sydd angen gofal a chefnogaeth yn anathema i ofal cymdeithasol; mae gwisgoedd a dillad amddiffynnol fel masgiau wyneb yn angenrheidiol yn hytrach na dewisol.

Mae rhai o ganlyniadau cymdeithasol Covid yn hysbys eisoes. Yn ogystal â'r nifer erchyll o farwolaethau, yn enwedig rhai preswylwyr cartrefi gofal³, cofnodwyd cynnydd mewn achosion o gam-drin domestig a cham-

¹ <https://wihsc.southwales.ac.uk/2020-vision-lessons-health-care-and-well-being/>

² <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/causesofdeath/articles/measuringocioeconomicinequalitiesinavoidablemortalityinenglandandwales/2001to2017>

³ <http://www.data.cymru/covid19/mortality>

drin arall⁴. Mae cynnal iechyd meddwl da wedi bod yn heriol gyda phryder cynyddol yn ymwneud ag unigrwydd ac ynysu. Ni allodd plant chwarae gyda ffrindiau na mynychu'r ysgol. Rhagwelir cynnydd mewn atgyfeiriadau amddiffyn plant pan fydd ysgolion yn ailagor⁵. Mae gofaluwr wedi nodi bod bylchau wedi bod mewn pecynnau gofal naill ai oherwydd absenoldeb staff cymorth proffesiynol neu oherwydd ofnau pobl ynglŷn â chaniatáu staff i ddod i'w cartrefi heb PPE digonol neu drwy ddilysiad drwy gael prawf negyddol⁶. Effeithiwyd yn anghymesur ar bobl ag anawsterau dysgu o'u cymharu â gweddill y boblogaeth.⁷

Effeithiwyd ar bob agwedd ar ofal cymdeithasol ac mae sylw'r rhai sy'n ymwneud â threfnu a darparu gofal a chefnogaeth wedi gorfod wynebu heriau newydd a digynsail. Mae'r heriau hyn a rhai eraill hefyd wedi cael eu hwynebu yn y GIG ac er bod y flaenoriaeth a roddwyd i sicrhau bod gan y GIG ddigon o allu gofal critigol yn ddealladwy, mae'n siomedig na chafodd cydnabyddiaeth o ofal cymdeithasol fel gwasanaeth allweddol hanfodol ei hamlygu'n briodol yn gyhoeddus tan wythnosau lawer ar ôl i'r llywodraeth ddechrau ymateb i'r pandemig. Ni ddylid fod wedi aros hyd y brotest ddiweddar ynghylch marwolaethau mewn cartrefi gofal i gydnabod pwysigrwydd gofal cymdeithasol a hyd yn oed nawr, dydy llawer o gyfraniadau pwysig eraill gofal cymdeithasol mewn ymateb i'r pandemig ddim wedi cael y sylw y maen nhw'n ei haeddu. Yn ddi-ddorol, mae'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng gofal cymdeithasol a'r GIG wedi cael eu hamlygu gan Covid o bosibl mewn modd nas gwnaed erioed o'r blaen ac mae hyn wedi helpu i gychwyn dadl newydd ynghylch sut mae eu priod swyddogaethau a'u gwerth cymharol wrth gefnogi iechyd a lles pobl mewn dull di-dor, integredig, yn cael deall a'u trefnu ar gyfer y dyfodol. Efallai y bydd angen ail-raddnodi gwaith aml-asiantaethol yn y dyfodol yn dilyn y profiad yn ystod cyfnod Covid.

CARTREFI GOFAL

Nid oes gwell enghraifft o'r modd mae ymateb i Covid wedi effeithio ar bobl sy'n derbyn gofal a chymorth nag achos y cartrefi gofal. Mae pam na chawson nhw eu blaenoriaethu o'r cychwyn fel lleoliadau risg uchel amlwg yn parhau i fod yn gwestiwn dyrys. Nododd canllawiau swyddogol llywodraeth y DU tan 13 Mawrth 2020: "Ar hyn o bryd dydy COVID-19 ddim yn trosglwyddo yn y gymuned. Felly mae'n annhebygol iawn y bydd unrhyw un sy'n derbyn gofal mewn cartref gofal neu'r gymuned yn cael ei heintio" ac "Nid oes angen gwneud unrhyw beth yn wahanol mewn unrhyw leoliad gofal ar hyn o bryd".⁸ Pan fydd nifer fawr o'r bobl hynaf, fregus, mwyaf bregus yn y gymdeithas, gyda chyflyrau meddygol sylfaenol, yn byw o dan yr un to, ac mae nifer cyffelyb o staff ac ymwelwyr yn ymuno â nhw bob dydd, i bob pwrpas mae gennych chi'r math o ymgynnull cymdeithasol sydd wedi ei wahardd yn y gymuned. Mae'r gymhariaeth â'r profiadau cynnar o sut bu i'r firws ymledu ar longau mordeithio yn ymdebygu i hyn.

Roedd symudiad pobl i mewn ac allan o gartrefi gofal, er dan amodau cyfyngedig ond heb sicrwydd profion, yn sicr o gynyddu trosglwyddiad y firws. I gymhlethu pethau, mae'n ymddangos bod gweithwyr cartrefi gofal a nyrsys cartrefi gofal wedi gorfod ymgymryd â rhywfaint o'r gofal mwyaf agos atoch heb yr offer amddiffynnol angenrheidiol na diogelwch cael profion. Dim ond yn ddiweddar y bu ymrwymiad i brofi'r holl staff a thrigolion boed gyda neu heb symptomau, sy'n enghraifft glir o pam y mae'n rhaid i benderfyniadau sy'n seiliedig ar wyddoniaeth gael eu hystyried gan yr angen i ddiogelu a thawelu meddyliau. Mae cyfradd marwolaethau preswylwyr cartrefi gofal yn arswydus. Efallai'n wir mai hwn fydd canlyniad trasig mwyaf parhaol yr ymdrin â'r argyfwng hwn.

⁴ <https://www.womensaid.org.uk/covid-19-resource-hub/#1585739910691-6b8d326b-5792>

⁵ <https://www.independent.co.uk/news/uk/home-news/coronavirus-children-referrals-schools-open-anne-longfield-a9500176.html#gsc.tab=0>

⁶ <https://www.carersuk.org/wales/news-campaigns/news/wales-carers-alliance-sends-letter-to-welsh-government-on-the-impact-on-unpaid-carers>

⁷ <https://www.cqc.org.uk/news/stories/understanding-impact-coronavirus-autistic-people-people-learning-disability>

⁸ <https://www.gov.uk/government/publications/guidance-for-social-or-community-care-and-residential-settings-on-covid-19/guidance-for-social-or-community-care-and-residential-settings-on-covid-19#guidance-on-facemasks>

Rhaid i delerau'r ymchwiliad anocheli'r modd yr ymdriniodd y DU â Covid o leiaf gynnwys cyfeiriad penodol at gartrefi gofal a gwranddo ar y rhai fu'n wynebu'r anawsterau ar y pryd.⁹ Yn ddefnyddiol, dylid cynnal ymholiad ar wahân. Mae gan deuluoedd mewn profedigaeth, sydd eisoes wedi bod yn ddigon dewr i fynegi eu tristwch a'u dicter, hawl i wybod pam y caniatawyd i unrhyw breswylwyr positif Covid ddychwelyd adref o'r ysbty heb ail-brofi, pam roedd nifer y marwolaethau mor uchel, a pham nad oedd yna gyd-ymdrech genedlaethol a gweladwy i amddiffyn preswylwyr fel rhan gychwynnol o ddull y llywodraeth o fynd o'i chwmpas hi. Gobeithio na fydd y cwestiynau hyn a chwestiynau eraill yn cael sylw o safbwynt beio a gwrthgyhuddo ond gyda ffocws ar ddysgu gwersi a galluogi teuluoedd i liniaru rhywfaint ar eu gofidiau a theimlo peth datrysiad acadferiad.

Yr eironi trist yw bod cartrefi gofal wedi cyflwyno cyfle unigryw o'r cychwyn cyntaf i weithredu strategaeth prawf, olrhain ac ynysu trwyadl, y profwyd ei bod yn llwyddiannus mewn manau eraill, ac sydd bellach yn cael ei hystyried yn hanfodol i ddod â'r cyfyngu i ben. Cafodd y Llywodraeth drafferth i ddechrau i adnabod a chysylltu â'r bobl hynny yn y gymuned yr ystyriwyd eu bod fwyaf agored i niwed er mwyn cynnig cyngor "cysgodi" ond eto roedd preswylwyr cartrefi gofal yn cynrychioli poblogaeth o'r union bobl hynny. Os y dy'r honiadau hefyd yn wir bod absenoldeb tâl salwch wedi cymell rhai gweithwyr gofal i fynd i'r gwaith naill ei heb neu hyd yn oed tra'n arddangos symptomau¹⁰, bydd lefel annerbyniol yr amlygiad i firws ymhlith preswylwyr cartrefi gofal, ynghyd ag effaith peidio â phrofi ymhellach, yn amlygu rhagor ar y pwnc.

Yn achos cartrefi gofal, mae amcanion symbiotig "Amddiffyn y GIG" ac "Achub Bywydau" wedi troi allan i fod yn annibynnol ar ei gilydd. Cydnabyddir bellach nad oedd llawer o breswylwyr wedi cael triniaeth ysbty er bod y gallu ar gael a rhyddhawyd rhai heb eu profi a chyn bod yn rhydd o firysau. Mae angen sicrwydd ar bobl bod y penderfyniadau hyn yn seiliedig ar y math o ystyriaethau clinigol a amlinellwyd gan Gymdeithas Geriatreg Prydain¹¹, ac nid yn unig â'r angen i ryddhau gwelyau ysbty. Fel arall, bydd amheuaeth yn parhau nad oedd achub bywydau yng nghyd-destun cartrefi gofal yn dilyn y bwriad i amddiffyn y GIG. Nid yw'n syndod bod rhai perchnogion cartrefi gofal wedi mynegi'r profiad eu bod fel pe baen nhw wedi eu gadael i deimlo bod preswylwyr cartrefi gofal wedi cael eu hystyried yn ddinasyddion ail ddothbarth.¹²

EFFAITH AR Y BOBL, Y GWEITHLU, AWDURDODAU LLEOL A DARPARWYR

Gall canlyniadau profiadau'r cartrefi gofal fod yn sylweddol ond gallan nhw helpu i ddechrau deall effeithiau Covid ar ofal cymdeithasol yn gyffredinol. Y preswylwyr a'u teuluoedd sydd wedi'u heffeithio fwyaf, wrth gwrs, ac mae'r ystadegau'n siarad drostyn nhw eu hunain, ond mae'r effaith ar staff, awdurdodau lleol a darparwyr cartrefi gofal hefyd wedi bod yn sylweddol. Trwy edrych yn fyr ar bob un yn ei dro, gallwn gael mewnwelediad cynnar i rai o effeithiau ehangach Covid a'r modd o'u cymhwyso ar draws y sbectrwm cyfan o ofal cymdeithasol.

Mae staff sy'n gweithio ym mhob lleoliad gofal wedi gweld eu rolau gofalu yn cael eu heffeithio gan risgiau newydd iddyn nhw eu hunain a'r rhai sydd yn eu gofal. Mae Ymddiriedolaeth Nuffield yn nodi bod cyfraddau marwolaeth ar gyfer galwedigaethau gofalu personol (gan gynnwys gweithwyr gofal) ddwywaith a hanner yn uwch nag ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol.¹³ Mae'n bwysig cydnabod bod llawer o'r materion a amlygwyd gan y naratif ynghylch cartrefi gofal yr un mor berthnasol i ofal yn y cartref ond mae

⁹ <https://www.theguardian.com/world/2020/apr/22/without-a-plan-its-not-going-to-stop-care-homes-fear-worst-yet-to-come-covid-19>

¹⁰ <https://www.manchestereveningnews.co.uk/news/greater-manchester-news/care-workers-cant-self-isolate-18102999>

¹¹ <https://www.manchestereveningnews.co.uk/news/greater-manchester-news/care-workers-cant-self-isolate-18102999>

¹² <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-52579252>

¹³ <https://www.nuffieldtrust.org.uk/resource/chart-of-the-week-people-in-public-facing-caring-and-trade-occupations-are-more-likely-to-die-from-covid-19?utm>

hyn hefyd ar ei hôl hi o ran derbyn y sylw y mae'n ei haeddu. Bu'n rhaid i rai gweithwyr gofal arfer eu sgiliau proffesiynol o bell ac, mewn llawer o achosion, drwy gryn risg i'w diogelwch eu hunain tra bod eraill yn anhunanol wedi lletya mewn cartrefi gofaler mwyn osgoi trosglwyddo'r firws.

Bu tystio i ymdrech y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y pandemig yn brofiad dyrchafol ac ysbrydoledig. Mae'r dewrder a ddangoswyd gan y gweithwyr a'u gostyngeiddrwydd yng ngoleuni awydd y boblogaeth i'w canmol a diolch iddyn nhw, wedi bod yn rhyfeddol. Roedden nhw'n gywir i ddweud nad ydyn nhw am gael eu disgrifio fel angylion nac arwyr. Maen nhw'n llawer rhyymwybodol o ganlyniadau negyddol terminoleg o'r fath ar ddenu pobl i'w proffesiynau yn y dyfodol. Mae'n well ganddyn nhw ddisgrifio eu profiad fel "dim ond gwneud eu gwaith" ac maen nhw'r un mor gywir i ddweud eu bod nhw'n haeddu cael gwneud y swydd honno'n ddiogel, gyda chydabyddiaeth briodol werth hynny ac offer amddiffynnol digonol. Credir bod y pandemig wedi creu mwy o ddiddordeb mewn gweithio ym maes nyrsio.¹⁴ Gobeithio y bydd hyn yn cael ei adleisio ym maes gofal cymdeithasol ac yn arwain at weithlu mwy cynaliadwy yn y dyfodol.

Bu'n rhaid i awdurdodau lleol gymhwyso canllawiau newydd a newidiol i'w cyfrifoldebau statudol a gwneud penderfyniadau anodd ond angenrheidiol fel atal gwasanaethau pwysig dros dro fel gofal dydd. Maen nhw wedi wynebu gorfod sicrhau parhad gwasanaeth a diogelu gyda gweithlu llai yn gweithredu mewn amgylchiadau cyfyngedig. Mae cynghorau bob amser wedi bod yn rhan gyflawni allweddol o bolisi'r llywodraeth wrth gymhwyso gwybodaeth leol i sicrhau bod penderfyniadau'n briodol i anghenion lleol. Mae Covid wedi golygu bod yn rhaid cyflawni'r rôl honno mewn amgylchedd cymhleth sy'n newid yn gyflym ac o wybod y gallai penderfyniadau fod yn llythrennol yn fater o fywyd neu farwolaeth. Mae eu safle canolog yn y system gofal cymdeithasol wedi golygu eu bod yn chwarae rôl gydlyn allweddol wrth gefnogi staff, darparwyr ac eraill. Maen nhw wedi wynebu heriau na ellir eu hosgoi ac mae'n anochel y byddan nhw wedi cael llwyddiannau a siomedigaethau wrth gyflawni eu nodau.

Mae awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol lleol eisoes yn nodi eu problemau ariannol sylweddol a achoswyd gan wariant ychwanegol a llai o incwm. Mae hyn yn cyflwyno heriau yn y dyfodol o ran cynaliadwyedd ac yn ailagor y ddadl ynglŷn â thalu am ofal. Heb os, bydd rhai yn dadlau ei bod yn bryd derbyn mai dim ond pan fyddwn yn barod i dalu amdany'n nhw y byddwn yn cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnom, e.e. trwy drethi uwch wedi'u clustnodi. Bydd hyn yn destun ystyriaethau gwleidyddol newydd, yn enwedig yng ngoleuni'r economi dlotach y byddwn wedi ei hetifeddu.

Mae'r heriau sy'n wynebu darparwyr gofal wedi eu gweld yn cael trafferth mewn sawl cyfeiriad. Bu'n rhaid iddyn nhw gaffael a defnyddio offer amddiffynnol personol yn wyneb cyflenwadau cyfyngedig yn fyd-eang a chynnal ansawdd gofal a pharhad busnes, tra hefyd yn gweld gweithlu sydd eisoes yn gyfyngedig yn cael ei leihau ymhellach gan yr angen i hunan ynysu. Mae diffyg cyflenwadau PPE wedi bwrw amheuaeth ar effeithiolrwydd y systemau caffael cyfredol. Mae Fforwm Gofal Cymru eisoes wedi rhybuddio y bydd rhai darparwyr, er gwaethaf cefnogaeth ariannol gan y llywodraeth, yn colli eu busnesau, gan arwain at sector annibynnol anghynaliadwy yn y tymor canolig i'r tymor hir.¹⁵ Mae goblygiadau hyn yn ddwys nid yn unig i'r perchnogion hynny a'u staff ond, o ystyried y ffaith bod y gyfran bennaf o ofal cymdeithasol yn cael ei darparu'n breifat, argyfer y system darparu gofal yn ei chyfanrwydd. Mae Covid wedi ail-godi dadleuon ynghylch perthynas y wladwriaeth â'r farchnad ar draws pob sector ac nid yw gofal cymdeithasol yn eithriad i hyn. Mae'r Athro John Bolton wedi amlinellu rhai meddyliau cynnar pwysig ar sut y gall Covid

¹⁴ <https://www.nursingtimes.net/news/education/nhs-england-chief-asks-universities-to-increase-intake-of-student-nurses-12-05-2020/>

¹⁵ <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-52427033>; <https://seneddresearch.blog/2020/05/19/coronavirus-adult-social-care/>

effeithio ar drefniadau ar gyfer gofal cymdeithasol oedolion yn Lloegr yn y dyfodol, lle mae wedi ymhelaethu ar bwysigrwydd deialog adeiladol yn y dyfodol rhwng comisiynwyr a darparwyr gofal.¹⁶

EDRYCH YMLAEN, AC YN ÔL

Rhaid i'r asesiad a ddaw am effaith Covid ar ofal cymdeithasol ystyried sut mae cyni wedi effeithio ar gryfder a chynaliadwyedd y sector dros y degawd diwethaf, ac ar ei wytnwch, wrth symud ymlaen. Yn yr un modd, byddai adolygiad o oblygiadau strategaethau lleihau nifer gwelyau'r GIG dros yr un cyfnod, a dibyniaeth ar wasanaeth gofal cymdeithasol heb ddigon o adnoddau i hwyluso rhyddhau o'r ysbwy yn gynnar, yn helpu ein dealltwriaeth o effeithiau rhain ar allu'r GIG i ymateb i'r pandemig hwn. Mae hefyd yn berthnasol edrych ymlaen a gofyn rhai cwestiynau. A fydd graddfa a phatrwm presennol awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol Cymru yn gallu ateb y galw ac i ba raddau y bydd gwytnwch yn y dyfodol yn gysylltiedig â maint? A fydd gwasanaeth gofal cymdeithasol datganoledig i raddau helaeth, a ddisgrifir yn aml fel un tameidiog, yn gallu ymdopi wrth wynebu argyfyngau tebyg yn y dyfodol? A fydd cyllido gofal cymdeithasol yn golygu y bydd y trafodaethau 'talw am ofal' yn dod i benderfyniad cyflym o'r diwedd? A fydd system iechyd a gofal cymdeithasol sydd wedi'i hintegreiddio'n briodol yn dod yn realiti o'r diwedd? Sut y bydd hawliau cyflogaeth y gweithlu yn cael eu hail-drefnu yn dilyn yr argyfwng? A fydd ysgogiad newydd i ddefnyddio technoleg gynorthwyol wrth ddarparu gofal cymdeithasol? A ddylai pandemig "unwaith mewn canrif" fod yn rhesymeg dros wneud newidiadau systemig? Mae angen i'r atebion i'r cwestiynau hyn a chwestiynau eraill ymddangos yn gryf ym mhob trafodaeth yn y dyfodol.

Yn olaf, rhaid inni edrych i mewn i addasrwydd llywodraethau fel unedau gweithredu polisi, ac a oes angen gwahanol fecanweithiau cyflenwi mewn amgylchiadau mor eithafol i gefnogi'r rhai hynny sydd ar reng flaen darparu gwasanaeth. Prif rolau'r llywodraeth ydy arweinyddiaeth wleidyddol, llunio polisiâu a deddfwriaeth. Parth eraill ydy gweithredu fel rheol ac fel rheol mae amser ar gael i sicrhau bod penderfyniadau a wneir ar lefel llywodraeth ganolog yn cael eu gweithredu'n llawn. Ni wnaeth Covid ganiatáu'r amser y tro hwn. Mae Cymru wedi gweld rhai diffygion gweithredu polisi yn achos y tan-alluedd i brofi am yr haint a phenderfyniad un bwrdd iechyd i fabwysiadu system wahanol ar gyfer cofnodi marwolaethau. Mae gwahaniaethau mewn polisi a dull gweithredu rhwng Lloegr a'r tair cenedl arall wedi achosi amheuan anefnyddiol yn achos cywirdeb peth o'r wyddoniaeth a'r tensiynau ynghylch gwahanol strategaethau gweithredu. Mae perthnasedd dulliau o fynd ati ledled y DU pan fo pandemig yn cael ei roi ar brawf yn gynyddol wrth i genhedloedd a rhanbarthau ddod â'r caethiwo i ben a cheisio hyblygrwydd i gwrdd ag amgylchiadau lleol.

Ni fu'r dyfodol erioed yn fwy ansicr, ond i aralleirio hen ddywediad, rhaid inni beidio â cholli'r cyfle i wneud newid cadarnhaol a ddaw yn sgil yr argyfwng hwn.

15^{eg} Mehefin 2020



¹⁶ https://ipc.brookes.ac.uk/publications/ASC_Pandemic.html?utm_source=Institute+of+Public+Care+-+News%2C+events%2C+reports+and+resources&utm_campaign=21e6905027